**RHYBUDD o Benderfyniadau'r Cyfarfod Rhithiol o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ddydd Mercher, 12 Ionawr 2022.**

***[Mae'r ddogfen hon er gwybodaeth yn unig, a bydd cofnodion llawn o'r cyfarfod gerbron y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion i'w cymeradwyo.***

***Mae'r dogfennau ar gyfer y cyfarfod uchod ar wefan y Cyngor ynghyd â gweddarllediad o'r gweithgareddau].***

| | |
|---|---|
| **Yn bresennol:** | Y Cynghorydd Nicola Roberts (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Eric Wyn Jones, Dafydd Roberts a Robin Williams<br><br>Y Cynghorydd Richard A Dew – Aelod Portffolio - Cynllunio |
| **Ymddiheuriadau:** | Y Cynghorwyr Richard O Jones a Ieuan Williams |
| **Hefyd yn bresennol:** | Aelodau Lleol: Y Cynghorwyr Aled M Jones (cais 12.12); Margaret M Roberts (cais 7.1).<br><br>Y Cynghorwyr Alun Mummery, Bryan Owen, Dafydd R Thomas. |

1.00 o'r gloch - 2.25 o'r gloch

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2 DATGANIAD O DDIDDORDEB** |
| PENDERFYNIAD | Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **3 COFNODION** |
| PENDERFYNIAD | Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod rhithiol blaenorol y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr, 2021 a chadarnhawyd eu bod yn gywir. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 YMWELIAD SAFLEOEDD** |
| PENDERFYNIAD | Cadarnhawyd bod cofnodion yr ymweliadau safle rhithiol a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr, 2021 yn gywir. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 SIARAD CYHOEDDUS** |
| PENDERFYNIAD | Nid oedd unrhyw siaradwyr cyhoeddus yn bresennol yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 CEISIADAU FYDD YN CAEL EI GOHIRIO** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 CEISIADAU'N CODI** |
| PENDERFYNIAD | **7.1 FPL/2021/136 - Cais llawn ar gyfer newid defnydd yr adeilad allanol i lety gwyliau ynghyd a'i addasu ac ehangu yn Wylfa, Ffordd Bangor, Benllech.**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn groes i argymhelliad y Swyddog gan fod y Pwyllgor o'r farn bod y datblygiad yn cydymffurfio gyda pholisïau cynllunio PCYFF 1, PCYFF 2 A PCYFF 3 ac na fyddai'n arwain at ormodedd o lety gwyliau o fewn yr ardal.**<br><br>***(Yn unol â gofynion Cyfansoddiad y Cyngor, gohiriwyd y cais yn awtomatig i'r cyfarfod nesaf er mwyn rhoi cyfle I Swyddogion baratoi adroddiad mewn perthynas â'r rhesymau a roddwyd dros gymeradwyo'r cais).*** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 CEISIADAU ECONOMAIDD** |
| PENDERFYNIAD | **Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 CESIADAU AM DY FFORDDIADWY** |
| PENDERFYNIAD | **Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 CEISIADAU'N GWYRO** |
| PENDERFYNIAD | **10.1 VAR/2021/39 - Cais o dan Adran 73A i ddiwygio amod (09)(Cynlluniau Caniatáu) o ganiatâd cynllunio rhif 29C39D (adnewyddu trosi adeiladau allanol yn 4 uned wyliau) er mwyn caniatáu lle teuluol ychwanegol i unedau Ym Mhenmynydd, Llanfwrog, Caergybi.**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **11 CYNIGION DATBLYGU A GYFLWYNWYD GAN GYNGHORWYR A SWYDDOGION** |
| PENDERFYNIAD | **Ni ystyriwyd unrhyw geisiadau o'r fath yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **12 GWEDDILL Y CEISIADAU** |
| PENDERFYNIAD | **12.1 VAR/2021/38 - Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amodau 15 a 16 o ganiatâd cynllunio rhif APP45-36 (caniatâd ar apêl) (adeiladu 15 tyrbin gwynt ar dir yn Nhrysglwyn Fawr, Rhosybol) er mwyn ymestyn cyfnod gweithredol y 14 tyrbin sydd wedi ei adeiladu ar y safle am gyfnod pellach o 10 mlynedd hyd at 29.6.31, ymestyn y cyfnod lle mae angen dadgomisiynu y fferm ynghyd ag ymestyn y cyfnod o orfod tynnu twrbin oddi ar y safle os ddim yn cynhyrchu trydan am gyfnod i'r grid lleol yn Fferm Wynt Trysglwyn, Rhosybol.**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig ac i ddileu Amod 1.**<br><br>**12.2 FPL/2021/298 –Cais llawn ar gyfer newid defnydd Lolfa Gymunedol i fod yn fflat preswyl llawr gwaelod ynghyd ag addasiadau a gosod paneli solar yn Lolfa Gymunedol St Seiriol, St Seiriols Close, Caergybi.** |

| | |
|---|---|
| | **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig ac i ddileu Amod 1.**<br><br>**12.3 FPL/2021/299 –Cais llawn am newid defnydd o lolfa gymunedol i greu eiddo preswyl ynghyd a gwaith cysylltiedig Bryn Tirion Biwmares**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig ac i ddileu Amod 1.**<br><br>**12.4 FPL/2021/285 - Cais llawn ar gyfer newid defnydd y lolfa gymunedol bresennol i mewn i uned breswyl yn Gerddi Stanley, Biwmares**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig ac i ddileu Amod 1.**<br><br>**12.5 FPL/2021/297 - Cais llawn ar gyfer newid defnydd y lolfa gymunedol bresennol i mewn i uned breswyl newydd yn Lolfa Gymunedol Tre Rhosyr, Niwbwrch**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig ac i ddileu Amod 1.**<br><br>**12.6 MAO/2021/32 -Mân newidiadau i gynllun sydd wedi ei ganiatáu yn flaenorol o dan ganiatâd cynllunio FPL/2019/258 er mwyn diwygio gorffeniad rendr allanol o arw i lyfn yng Nghlwb Cymdeithasol Biwmares, Steeple Lane, Biwmares.**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig ac i ddileu Amod 1.**<br><br>**12.7 DIS/2021/101 – Cais i ryddhau amod (04) (Manyleb rhaglen o waith archeolegol ) o ganiatâd cynllunio CAC/2019/3: Cais Ardal Gadwraeth ar gyfer dymchwel adeilad presennol ynghyd a chodi chwech fflat un ystafell wely yn ei le yng Nghlwb Cymdeithasol Biwmares, Steeple Lane,** |

Biwmares.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig ac i ddileu Amod 1.**

**12.8 DIS/2021/102 - Cais i ryddhau amodau (03) (draenio dŵr budr), (05) (Cynllun Rheoli Traffic Adeiladu), (07) (manylion gwaith dymchwel), (08) (manylion ffenestri) ac (11) (cynllun tai fforddiadwy) o ganiatâd cynllunio FPL/2019/258 (dymchwel yr adeilad presennol a chodi chwech fflat un ystafell wely) ynn Nghlwb Cymdeithasol Biwmares, Steeple Lane, Biwmares.**

**PENDERFYNWYD :-**

- **Rhyddhau amodau (05), (07) ac (11) yn unol ag argymhelliad y Swyddog yn yr adroddiad ysgrifenedig;**
- **Dirprwyo'r pŵer i'r Swyddogion i ryddhau amodau (8) a (3) unwaith y byddant yn fodlon â'r canlynol: y trafodaethau rhwng yr asiant a'r Swyddog Treftadaeth mewn perthynas ag amod (8) i sicrhau bod manylion y ffenestri'n dderbyniol cyn rhoi caniatâd: ymateb Dŵr Cymru mewn perthynas ag amod (3) yn dilyn derbyn rhagor o wybodaeth gan yr asiant i fodloni'r gofynion.**

**12.9 TPO/2021/31 –Cais i wneud gwaith ar goed sydd wedi eu gwarchod gan Orchymyn Diogelu Coed yn Dingle, Llangefni**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig ac i ddileu Amod 1.**

**12.10 FPL/2021/276 - Cais llawn ar gyfer codi 6 tŷ ynghyd â datblygiadau cysylltiedig ar dir yn Burgess Agricultural Engineers, Stryd y Bont, Llangefni**

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig ac i ddileu Amod 1.**

| | |
|---|---|
| | **12.11 ADV/2021/9 - Cais i leoli 2 arwydd heb eu goleuo ar dir yn Bloc E, Stad Ddiwydiannol Penrhos, Caergybi**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig ac i ddileu Amod 1.**<br><br>**12.12 FPL/2021/304 –Cais ôl-weithredol ar gyfer defnyddio carafán statig ar gyfer defnydd gwyliau yn The Lodge, Capel Bach, Rhosybol.**<br><br>**PENDERFYNWYD cynnal ymweliad safle rhithiol yn unol â chais yr Aelod Lleol ac am y rhesymau a roddwyd.**<br><br>**12.13 FPL/2021/302 - Cais llawn am newid defnydd tir o dir amaethyddol ar gyfer safle i 10 o Garafanau teithiol yn Bunwerth, Bae Trearddur, Caergybi**<br><br>**PENDERFYNWYD cynnal ymweliad safle rhithiol yn unol â chais yr Aelod Lleol ac am y rhesymau a roddwyd.**<br><br>**12.14 VAR/2021/63 - Cais o dan Adran 73 i ddiwygio amod (02)(Cynlluniau Cymeradwy) o ganiatâd cynllunio rhif FPL/2019/278 (Cais llawn ar gyfer dymchwel adeiladau ysgol presennol a chodi 8 annedd ynghyd a chreu mynedfa i gerbydau ar dir yn) er mwyn diwygio dyluniadau allanol yn Ysgol Gynradd Llanfachraeth, Llanfachraeth**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig ac i ddileu Amod 1.**<br><br>**12.15 MAO/2021/31 – Mân ddiwygiadau i'r cynllun a gymeradwywyd yn flaenorol o dan ganiatâd cynllunio 20C102L/EIA/RE (Cais llawn i godi 11 o dyrbinau gwynt ) yn Rhyd y Groes, Rhosgoch er mwyn diwygio geiriad amod 24 er mwyn caniatáu i'r manylion gael eu cyflwyno cyn codi'r tyrbinau yn hytrach na cyn i'r datblygiad ddechrau yn Fferm Wynt Rhyd y Groes, Cemaes** |

| | |
|---|---|
| | **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Swyddog a gyda'r amodau yn yr adroddiad ysgrifenedig ac i ddileu Amod 1.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **13 MATERION ERAILL** |
| PENDERFYNIAD | Ni ystyriwyd unrhyw faterion eraill yn ystod y cyfarfod hwn o'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion. |